# Cynlluniau Ymweld i Wirfoddolwyr

# Adroddiad Blynyddol

# 2024-2025

Law yn Llaw at Dde Cymru diogel, cyfiawn a chynhwysol

Together for a safe, just and inclusive South Wales

Rheolwr y Cynllun

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ar ein gwefan, neu gallwch gysylltu â: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk

This document is available in English on our website, or you can contact: commissioner@south-wales.police.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Emma Wools, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 2 |
| Cyflwyniad i'n Cynlluniau Ymweld i Wirfoddolwyr | 3 |
| Trosolwg o Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Ne Cymru | 4 |
| Llywodraethu ein Cynllun | 4 |
| Dalfeydd yr Heddlu yn Ne Cymru | 5 |
| Data'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | 6 |
| Canfyddiadau'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | 8 |
| Datblygu'r Cynllun | 10 |
| Cynllun Lles Anifeiliaid | 14 |
| Sut mae Heddlu De Cymru yn Ymateb i'n Canfyddiadau | 16 |
| Casgliad | 16 |

## Rhagair



**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools:**

Rwy'n ddiolchgar iawn am y gwaith caled a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan ein Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'n Hymwelwyr Lles Anifeiliaid. Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n deall pwysigrwydd craffu, atebolrwydd a thryloywder. Mae'r Cynlluniau Gwirfoddolwyr Annibynnol yn chwarae rôl hanfodol yn swyddogaeth graffu fy Swyddfa ac yn fy helpu i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Dengys yr adroddiad blynyddol hwn gyfraniadau gwerthfawr ein Gwirfoddolwyr Annibynnol sydd, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi sicrhau bod hawliau a lles unigolion yn y ddalfa yn cael eu cynnal. Maent hefyd wedi helpu i sicrhau bod yr amodau lle y caiff cŵn a cheffylau Heddlu De Cymru eu cadw yn cyrraedd y safonau uchaf bob amser.

Hoffwn ddiolch i'r Gwirfoddolwyr Annibynnol am eu cyfraniad ac achub ar y cyfle hwn i ailbwysleisio fy ymrwymiad i gefnogi datblygiad parhaus y Cynllun Gwirfoddolwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r Cynllun Lles Anifeiliaid.





## Cyflwyniad i'n Cynlluniau Ymweld i Wirfoddolwyr

Yn 1981, cafwyd sawl achos o anfodlonrwydd mewn dinasoedd amrywiol drwy'r wlad – gan gynnwys Bryste, Lerpwl, Manceinion, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain. Digwyddodd yr achos o anhrefn mwyaf sylweddol yn Brixton pan ymosododd cannoedd o bobl ifanc ar eiddo ac ar yr heddlu. Ar ôl dyddiau o anfodlonrwydd, arweiniodd y digwyddiadau difrifol hyn at y llywodraeth yn gorchymyn ymchwiliad brys a phenodi'r Arglwydd Scarman i gynnal ymchwiliad cynhwysfawr i'r digwyddiadau.

Fel rhan o'r argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad a'r adroddiad dilynol, cynghorodd yr Arglwydd Scarman y dylid cael system lle y gallai aelodau'r cyhoedd o gymunedau lleol archwilio'r ffordd yr oedd yr heddlu'n cadw pobl yn eu dalfeydd. Datblygwyd y system Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, y cyfeiriwyd ati'n wreiddiol fel system 'ymwelwyr lleyg', mewn ymateb i'r argymhelliad hwn.

Gwnaeth Deddf yr Heddlu a Throseddu 2002 y broses o ymweld â dalfeydd yn statudol a chyflwynodd y Swyddfa Gartref Codes of Practice for Independent Custody Visiting. Cyflwynodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a rhoddodd gyfrifoldeb iddynt weithredu a goruchwylio'r cynllun yn ardal eu heddlu nhw.

Yn Ne Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd statudol a'r Cynllun Ymweld anstatudol ar gyfer Lles Anifeiliaid. Mae'r Comisiynydd yn penodi gwirfoddolwyr o'r gymuned leol i ymweld â gorsafoedd yr heddlu, a safle cŵn a cheffylau'r heddlu yn ddirybudd.

Mae'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd statudol yn cynnwys ymwelwyr yn cyflwyno adroddiadau ar les y rhai yn y ddalfa yn wythnosol, gan sicrhau bod eu hawliau yn cael eu cynnal. Mae'n ddull effeithiol o oruchwylio dalfeydd yr heddlu ac yn un o lawer o agweddau ar rôl craffu a goruchwylio gyffredinol y Comisiynydd.

Yn Ne Cymru, mae'r Comisiynydd wedi penodi Rheolwr Cynllun sy'n goruchwylio'r ffordd y mae'r Cynllun Ymwelwyr â Dalfeydd yn gweithredu'n gyffredinol ar ei rhan. Mae Rheolwr y Cynllun yn gyfrifol am ddau banel – panel y Dwyrain a phanel y Gorllewin. Mae panel y Dwyrain yn cwmpasu'r dalfeydd ym Mae Caerdydd a Merthyr Tudful. Mae panel y Gorllewin yn cwmpasu'r dalfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe.

Fel rhan o'r Cynllun Ymweld ar gyfer Lles Anifeiliaid, mae gwirfoddolwyr yn adrodd ar les cŵn a cheffylau'r heddlu drwy ymweld â safle Cŵn a Cheffylau Heddlu De Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar weithgarwch y cynllun o fis Ebrill 2024 i ddiwedd mis Mawrth 2025. Mae'n amlygu gwaith ein hymwelwyr, eu canfyddiadau a'r gwerth y maent yn ei roi i'n cymunedau.

## Trosolwg o Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Ne Cymru

Yn ystod 2024-25, darparwyd y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Ne Cymru gan 13 (yn ôl Ebrill 2025) o ymwelwyr gwirfoddol wedi'u rhannu'n ddau banel – panel y Dwyrain a phanel y Gorllewin. Dangosir y dadansoddiad demograffig o'r gwirfoddolwyr yn y tabl dros y dudalen.

Nod ein hymwelwyr yw ymweld â dalfeydd Merthyr, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr unwaith yr wythnos, gyda'r nod o gynnal tri ymweliad bob pythefnos â Gorsaf Heddlu Canol Abertawe, er bod hyn wedi bod yn anodd ar adegau ac mae angen recriwtio rhagor o wirfoddolwyr. Gwnaed y penderfyniad i gynyddu nifer yr ymweliadau â Gorsaf Heddlu Canol Abertawe o ystyried pa mor hen yw'r ddalfa a'r materion cysylltiedig a godwyd gan Ymwelwyr. Caiff hyn ei adolygu eto yn ystod 2025-2026.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd dwy ymgyrch recriwtio i gynyddu nifer yr ymwelwyr. Mae'n ofynnol i ymwelwyr gwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn foddhaol. Uchafswm cyfnod penodiad ar gyfer ymwelwyr yw naw mlynedd, a chaiff pob penodiad ei adolygu drwy gyfweliad a gweithdrefnau fetio bob tair blynedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Yn sgil cyflwyno deiliadaeth yn 2024, cyrhaeddodd saith ymwelydd uchafswm eu penodiad a gwnaethant adael y Cynllun.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Dde Cymru gyfleusterau i gadw unigolion o dan Ddeddf Terfysgaeth (TACT) 2000. Bwriedir mynd ati yn 2025 i ystyried a oes angen i wirfoddolwyr fynd drwy'r broses fetio a hyfforddi angenrheidiol i ymweld ag unigolion TACT yn y ddalfa os bydd yr angen yn codi unrhyw bryd yn y dyfodol.

## Llywodraethu ein Cynllun

Mae'r ddau banel yn cyfarfod â'r Rhingyll / Arolygydd Dalfeydd a Rheolwr y Cynllun bob chwarter godi pryderon sy'n deillio o ymweliadau, tynnu sylw at arferion da a thrafod unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau sy'n effeithio ar y dalfeydd lleol a'r rôl ymweld. Caiff pob panel ei gadeirio gan ymwelydd a benodir gan aelodau'r panel am gyfnod o dair blynedd.

Llunnir crynodeb o faterion a nodwyd yn ystod y chwarter blaenorol gan Reolwr y Cynllun mewn ymgynghoriad ag aelodau'r panel, a chaiff ei ddosbarthu i'r Rhingyll/Arolygydd a'r aelodau i'w ystyried cyn y cyfarfod. Gellir codi materion ychwanegol ar y diwrnod.

Roedd cyfarfodydd panel yn 2024/25 yn cynnwys trafodaeth am y themâu canlynol:

- Lefelau staffio
- Pecynnau Lles ar gyfer Menywod
- Adolygiadau Arolygwyr
- Hawliau a Hawliadau
- Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio
- Gwaith Adnewyddu Dalfeydd
- Deunyddiau Crefyddol
- Plant/Pobl Ifanc
- Defnydd o Rym
- Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

## Dalfeydd yr Heddlu yn Ne Cymru



Mae Heddlu De Cymru yn gweithredu pedair dalfa, ac mae'r rhain wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd, Merthyr Tudful, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr. Adeiladwyd y dalfeydd ym Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr yn 2014 ac maent wedi'u lleoli i ffwrdd o ganol y dref. Mae gan bob dalfa 42 o gelloedd ac mae'r ddwy ddalfa yn unfath o ran cynllun. Mae'r ddalfa hynaf yn ardal De Cymru yn Abertawe. Mae'n rhan o orsaf heddlu Canol Abertawe, sydd â 27 o gelloedd. Cwblhawyd gorsaf heddlu Bae Caerdydd yn 2009 ac mae'r ddalfa wedi'i chynllunio dros 2 lefel, gyda chyfanswm o 60 o gelloedd.

## Galw am Blismona

Yn Ne Cymru yn ystod 2024-2025, roedd tua 24,694 o arestiadau sylfaenol* a arweiniodd at gadw unigolion yn y ddalfa.

Nodir isod ddadansoddiad o'r unigolion a gadwyd yn y Ddalfa yn 2024-25:

### Unigolion a Gedwir yn y Ddalfa (2024-25)

**Rhywedd**
81.5% Gwryw
18% Benyw
0.21% Heb ei ddiffinio/cofnodi

**Oedran**
4.8% 10-17 oed
17.6% 18-25 oed
77.4% 26+ oed

**24,694 o arestiadau sylfaenol* yn 2024-25**

**Ethnigrwydd**
82.2% Gwyn
8.16% Grwpiau Ethnig Lleiafrifol
7.9% Heb ei ddiffinio

**Anabledd ac Iechyd Meddwl**
0.3% Marcwyr dangosyddion anabledd (corfforol)
65% Marcwyr dangosyddion iechyd meddwl

*Mae arestiad sylfaenol yn cyfeirio at y drosedd lle y caiff unigolyn ei arestio'n wreiddiol a'i roi yn y ddalfa. Wedi hynny, gall unigolyn gael ei arestio am droseddau pellach. Defnyddir y term hwn i osgoi cyfrif ddwywaith.

## Data Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Mae'r data canlynol yn cyfeirio at ymweliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.


Cynhaliwyd cyfanswm o 111 o ymweliadau yn 2024-25 ac ymwelwyd â 31.81% o unigolion (cyfanswm o 983 o unigolion yn y ddalfa gydag ymweliadau yn cael eu cynnal â 271 ohonynt). Efallai na fydd unigolion 'ar gael' am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys oherwydd eu bod yn cysgu, o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, mewn cyfweliad, yn defnyddio cyfleusterau hylendid neu o ganlyniad i gyngor i beidio ag ymweld ag unigolion penodol am eu bod wedi cynhyrfu neu'n ymosodgar iawn.

Yn ogystal â'r 271 o unigolion a gyfwelwyd gan y gwirfoddolwyr, cafodd 162 o unigolion eraill eu goruchwylio naill ai drwy dybio caniatâd unigolyn i weld cofnod y ddalfa neu drwy weld unigolyn drwy agorfa'r drws, er enghraifft.

Yn ystod 2025-2026, caiff Ffurflenni Adrodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r System Casglu Data eu hadolygu oherwydd nodwyd efallai nad yw'r prosesau cyfredol yn cofnodi'n gywir pan gaiff unigolyn ei weld gan ymwelwyr, a all effeithio ar y data uchod.

Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd 28 o ymweliadau â Chaerdydd a Merthyr a 83 â Phen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Mae nifer yr ymweliadau wedi bod yn is na'r disgwyl eleni ac nid yw hyn yn cyflawni ein hamcanion. Rydym wedi bod yn recriwtio'n weithredol yn ystod y cyfnod hwn a byddwn yn parhau i wneud hyn er mwyn cynyddu nifer yr ymweliadau â phob dalfa. Mae'r ymwelwyr presennol wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod ymweliadau yn digwydd er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Mae eu hymroddiad wedi bod yn hanfodol i gadw pethau i symud yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad o nifer yr ymweliadau fesul gorsaf.



*Dangosir y dadansoddiad demograffig o'r ymwelwyr gwirfoddol yn y tabl isod:

| **Aelodaeth Cynllun De Cymru** | |
|---|---|
| **Oedran** | |
| 18 i 25 oed | 0.0% |
| 26 i 50 oed | 69.23% |
| 51 i 70 oed | 23.08% |
| 71 + oed | 7.69% |
| **Rhywedd** | |
| Benyw | 84.61% |
| Gwryw | 15.38% |
| **Ethnigrwydd** | |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 0.0% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.0% |
| Grwpiau ethnig Cymysg neu Aml-ethnig | 7% |
| Gwyn Cymreig / Prydeinig | 76% |
| Arall (h.y. Pwylaidd, Tsiecaidd) | 15% |
| **Anabledd** | |
| Nac oes | 84.61% |
| Oes | 15.38% |
| Heb ei ddiffinio | 0.0% |
| **Crefydd** | |
| Cristnogaeth | 30.79% |
| Mwslim | 0.0% |
| Dim crefydd | 53.85% |
| Arall | 0.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 15.38% |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | |
| Hoyw/Lesbiaidd/Deurywiol | 15.38% |
| Heterorywiol/Syth | 84.61% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0.0% |
| **Y Gymraeg** | |
| Ddim yn siarad Cymraeg | 69.23% |
| Dysgwr Cymraeg | 30.76% |
| Siaradwr Cymraeg | 0.0% |

*Gweler tudalen 12 ar gyfer ein cynlluniau i flaenoriaethu amrywiaeth yn ein hymdrechion recriwtio er mwyn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well.

Weithiau, mae'r dalfeydd yn brysur iawn ac oherwydd cyfyngiadau amser ar staff hebrwng y ddalfa, mae'r ymwelwyr yn blaenoriaethu unigolion i gyfweld â nhw. Bydd ymwelwyr yn blaenoriaethu oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Siaradodd yr ymwelwyr â 14 o 33 o bobl ifanc yn ystod eu hymweliadau. Roedd yr holl bobl ifanc y siaradwyd â nhw yn wrywaidd.

## Canfyddiadau'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd



Mae ymwelwyr yn chwarae rhan hollbwysig wrth dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y ddalfa a sicrhau bod y rhain yn cael eu dwyn at sylw staff y ddalfa a Rheolwr y Cynllun er mwyn eu hunioni cyn gynted â phosibl. Os bydd yr ystafell yn brysur, bydd yr ymwelwyr yn blaenoriaethu'r gwaith o siarad â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau bod eu hanghenion wedi'u diwallu, cyn siarad ag unrhyw unigolion eraill. Gallai'r materion a godwyd gan yr ymwelwyr gynnwys unrhyw bryderon am les yr unigolyn ac unrhyw faterion am yr ystad neu waith atgyweirio. Bydd ymwelwyr yn nodi materion neu bryderon ymddangosiadol o'u hymweliadau ar ffurflen adrodd.

Caiff copi o'r adroddiad ei anfon at Reolwr y Cynllun i'w brosesu. Yna, caiff copi e-bost o'r ffurflen adrodd ei anfon at staff y ddalfa. Caiff pob mater sy'n codi ei drafod yn ystod cyfarfodydd panel a bydd cynrychiolydd o'r heddlu yn rhoi diweddariad i'r ymwelwyr neu adborth ar eu canfyddiadau. Caiff materion thematig eu casglu gan Reolwr y Cynllun a'u nodi mewn adroddiad ac yna eu trafod yn ystod y cyfarfod. Caiff themâu cenedlaethol a amlygir gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) eu rhannu a'u trafod â'r ymwelwyr hefyd.

Bydd yr ymwelwyr yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion brys ar adeg yr ymweliad a chânt eu codi ar unwaith â rhingyll neu arolygydd y ddalfa. Yna, bydd ymwelwyr yn cofnodi'r wybodaeth ar eu ffurflenni adrodd a byddant hefyd yn rhoi gwybod i Reolwr y Cynllun.

Pan fydd unigolyn yn y ddalfa yn tynnu sylw at bryder neu'n gwneud cwyn anffurfiol i ymwelwyr, caiff hyn ei godi gydag aelod o staff y ddalfa a gall yr ymwelwyr edrych ar gofnod dalfa yr unigolyn, gyda'i ganiatâd. Os na fydd unigolyn ar gael, gall ymwelwyr 'dybio cydsyniad' i edrych ar y cofnod. Cynghorir unigolion yn y ddalfa os hoffent wneud cwyn, y dylent siarad â'r swyddog sy'n gyfrifol.

Mae ymwelwyr yn canolbwyntio ar hawliau unigolion yn y ddalfa, yn enwedig wrth ystyried i ba raddau y rhoddir gwybod i unigolion am y rhain a ph'un a yw'r heddlu yn eu cynnig iddynt yn rhagweithiol. Er bod y canfyddiadau yn gadarnhaol ar y cyfan, mae ymwelwyr wedi rhoi adborth ar adegau lle mae unigolion yn y ddalfa wedi nodi nad ydynt wedi cael cynnig cawod na'r cyfle i ddefnyddio'r iard ymarfer corff ar ôl bod yn y ddalfa am gyfnod hir. Codwyd yr achosion hyn gydag uwch-dîm rheoli'r ddalfa ac mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn parhau i fonitro hyn.

Mae ymwelwyr hefyd yn monitro'r ffordd y caiff eitemau sy'n tynnu sylw eu dosbarthu i blant ac oedolion sy'n agored i niwed ac unwaith eto, maent yn rhoi gwybod i unigolion yn y ddalfa am yr eitemau hyn os bydd ganddynt hawl i'w cael yn dilyn asesiad risg.

Mae urddas unigolion yn y ddalfa yn ffocws allweddol arall i Ymwelwyr ac yn sicrhau bod yr unigolion mewn dalfeydd yn cael gofal priodol. Un enghraifft lle mae ymwelwyr wedi gwneud gwahaniaeth yw bod gwasanaethau dalfeydd, yn dilyn adborth gan ymwelwyr ac ymholiadau am argaeledd darpariaethau ar gyfer unigolion sy'n mynd drwy'r menopos, wedi rhoi mentrau ar waith i gefnogi unigolion sy'n wynebu symptomau'r menopos yn y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys darparu pecynnau hylendid a thaflenni gwybodaeth sy'n benodol i'r menopos, yn ogystal â chynnig mynediad i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Nod y mesurau hyn yw mynd i'r afael ag effaith bosibl y menopos ar lesiant corfforol a meddyliol menywod yn y ddalfa.

Ar un achlysur, nododd ymwelwyr fod unigolyn wedi cael ei roi mewn cell yn agos at unigolyn arall, a oedd yn gweiddi ac yn rhegi. Roedd hyn yn peri pryder i'r unigolyn. Codwyd hyn gyda gwasanaethau'r ddalfa am fod ymwelwyr yn teimlo ei bod yn briodol i'r unigolion gael eu symud am fod lle ar gael mewn adain arall. Derbyniodd gwasanaethau'r ddalfa yr adborth hwn am leoliad cyffredinol unigolion yn y ddalfa, ac mae hyn yn parhau i gael ei fonitro gan ymwelwyr. Ni roddwyd gwybod am achosion tebyg ers hynny.

Y themâu y rhoddir gwybod amdanynt yn aml gan ymwelwyr yw lefelau staffio isel a dalfeydd prysur. Ar sawl achlysur, bu'n rhaid i ymwelwyr roi'r gorau i ymweliadau am y rheswm hwn, yn enwedig yn nalfeydd Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Er mwyn lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto, mae rhifau cyswllt yr Arolygydd Dalfeydd Efydd wedi'u rhoi i ymwelwyr er mwyn iddynt siarad ag ef os bydd angen iddynt ystyried rhoi gorau i ymweliad. At hynny, mae Rheolwr y Cynllun yn parhau i ddarparu mewnbwn i aelodau newydd o Staff y Ddalfa er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o rôl yr ymwelydd ac yn meddu ar wybodaeth amdani a'r angen iddynt gael mynediad uniongyrchol i'r ddalfa, oni bai bod amgylchiadau eithriadol fel pryderon am iechyd a diogelwch.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae ymwelwyr wedi codi materion am gyfleusterau a chyfarpar dalfeydd, er enghraifft:

- Diffygion
- Dalfa oer (Caerdydd)
- Prinder blancedi
- Hygyrchedd dalfeydd i'r rhai ag anableddau corfforol.
- Y cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i ddiffygion gael eu datrys ac atgyweiriadau gael eu cwblhau. Yn benodol, yr amseroedd aros am rannau technolegol o ganlyniad i oedran y dechnoleg.

Mae'r nifer mwyaf o faterion y rhoddir gwybod amdanynt yn ymwneud â Dalfa Abertawe o hyd. Mae materion wedi'u nodi yn ymwneud â'r ffaith mai dim ond un ystafell prosesu delweddau camerâu sydd ar gael yn Abertawe, sy'n arafu'r broses o gofrestru unigolion. Bydd Ymwelwyr yn parhau i adolygu ac adrodd ar eu harsylwadau ar y materion hyn, ochr yn ochr â materion eraill a nodir ganddynt.

Yn ystod ymweliadau, bydd ymwelwyr yn rhoi blaenoriaeth i weld plant ac oedolion agored i niwed a rhoi gwybod am unrhyw themâu cyffredin a nodir a phryderon. Ar un achlysur, roedd un unigolyn ifanc wedi cael ei gadw yn y ddalfa yn Abertawe am fwy na 17 awr. Roedd yr heddlu wedi gwneud cais am Oedolyn Priodol o'r awdurdod lleol, ond nid oedd y tîm dyletswydd brys wedi gallu ymateb. Bydd ymwelwyr yn parhau i fonitro presenoldeb oedolion priodol a darpariaeth llety gan yr awdurdod lleol.

Ar achlysur arall, nododd ymwelwyr fod unigolyn agored i niwed yn Abertawe wedi bod yn y ddalfa am 15 awr, ond nad oedd oedolyn priodol wedi mynychu eto. Codwyd hyn ar unwaith gydag arweinwyr y ddalfa, a aeth ati i ymchwilio i'r digwyddiad ac i rannu'r hyn a ddysgwyd â staff y ddalfa ynglŷn â chysylltu ag oedolion priodol a chofnodi hynny yng nghofnod y ddalfa. Anogodd uwch-arweinwyr y ddalfa ymwelwyr i gysylltu â'r Arolygydd Dalfeydd Efydd pe bai achosion tebyg yn codi.

Mae'n bwysig nodi bod canmoliaeth a sylwadau cadarnhaol hefyd yn cael eu cofnodi gan yr ymwelwyr ac mae Rheolwr y Cynllun yn sicrhau y caiff y rhain eu cofnodi a'u rhannu â chynrychiolwyr yr heddlu. Yn ystod cyfarfodydd panel, bydd ymwelwyr yn lleisio eu canmoliaeth am aelodau o staff yn y ddalfa sy'n bwysig i'w rhannu, yn eu barn nhw. Isod mae rhai enghreifftiau o'r sylwadau cadarnhaol sydd wedi cael eu nodi gan yr ymwelwyr yn ystod y flwyddyn:

- Roedd Staff y Ddalfa yn barod eu cymwynas ac yn groesawgar i'r ymwelwyr.
- Roedd unigolion yn y ddalfa yn canmol y ffordd roeddent yn cael eu trin gan staff y ddalfa.
- Roedd swm helaeth o eitemau o fwyd ar gael i unigolion yn y ddalfa.
- Mae Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn gweithio ym mhob Dalfa erbyn hyn.
- Roedd deunyddiau crefyddol eu storio'n gywir.
- Roedd staff y ddalfa yn delio'n gadarnhaol ag unigolyn ag anableddau corfforol yn y ddalfa.
- Cafwyd adborth cadarnhaol am unigolyn ag anghenion deietegol a nodwyd bod staff yn dod â bwyd i mewn i'r ddalfa ar ei gyfer.
- Nodwyd llai o ddefnydd o ddillad gwrthrwygo ar gyfer menywod yn y ddalfa.
- Roedd Arolygwyr Dalfeydd yn fwy gweladwy mewn dalfeydd.
- Mae gwasanaethau'r ddalfa wedi cyflwyno cwestiwn i unigolion wrth gael eu cofrestru, yn gofyn iddynt a ydynt yn ystyried eu hunain yn 'niwroamrywiol'. Ers i hyn gael ei gyflwyno, mae nifer yr atgyfeiriadau at oedolion priodol gan y ddalfa wedi cynyddu, sy'n awgrymu bod unigolion agored i niwed yn cael eu nodi'n well a bod cymorth yn cael ei geisio.

Yn ystod 2024-25, nodwyd 81 o ddigwyddiadau niweidiol yn y ddalfa ledled ardal yr heddlu. Diffinnir 'digwyddiad niweidiol' gan y Coleg Plismona fel 'unrhyw ddigwyddiad a fyddai wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw un pe bai wedi parhau'. Mae ymwelwyr yn goruchwylio digwyddiadau niweidiol yn ystod cyfarfodydd panel. At hynny, mae Rheolwr y Cynllun yn cymryd rhan mewn fforwm 'Gwersi a Ddysgwyd yn y Ddalfa' lle mae arweinwyr dalfeydd, y tîm iechyd a diogelwch a'r tîm dysgu a datblygu hefyd yn bresennol. Diben y fforwm yw craffu ar ddigwyddiadau niweidiol diweddar a myfyrio ar unrhyw wersi a ddysgwyd neu gamau a gymerwyd o ganlyniad iddynt. Mae Rheolwr y Cynllun yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymwelwyr yn dilyn y cyfarfodydd.

## Datblygu'r Cynllun

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi – Arolygiad o Ddalfeydd[1]

Yn 2023, cafodd Heddlu De Cymru arolygiad o Ddalfeydd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (yr Arolygiaeth). Asesodd yr arolygiad hwn effeithiolrwydd gwasanaethau'r ddalfa a chanlyniadau i bobl drwy gydol eu cyfnodau gwahanol yn y ddalfa.

[1] Adroddiad ar ymweliad arolygu â dalfeydd yr heddlu yn Heddlu De Cymru – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (justiceinspectorates.gov.uk)

Yn ystod 2024-2025, parhaodd ymwelwyr i oruchwylio cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a chafodd ddiweddariadau gan ddalfeydd ynglŷn â'r camau a gymerwyd. Er enghraifft, rhoddir diweddariadau a rennir i ddalfeydd ynglŷn â'r canlynol:

- Gwaith adnewyddu gofynnol sy'n cael ei wneud mewn dalfeydd.
- Cyflwyno Arolygwyr newydd.
- Sicrhau Ansawdd Data ar y 'Defnydd o Rym'.
- Contract newydd ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol sy'n golygu bod gweithiwr proffesiynol parhaol ym mhob dalfa.
- Mae datgelydd metel a 'Podiau' bellach ar gael mewn dalfeydd.

Panel Craffu ar Ddalfeydd Annibynnol

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu arweiniad ar y cyd, a ddatblygwyd ganddynt, gyda chyfraniad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ICVA a'r Swyddfa Gartref ar Gyflwyno Paneli Craffu ar Ddalfeydd. Cytunodd Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd y byddai 'Panel Craffu ar Ddalfeydd Annibynnol' yn cael ei ddatblygu yn unol â'r arweiniad er mwyn helpu i fonitro cynnydd argymhellion yr Arolygiaeth, gan sicrhau cynnydd cadarnhaol yn y maes hwn.

Mae'r aelodau yn cynnwys y bobl sy'n cynrychioli'r canlynol:

- Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
- Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu
- Grŵp Cynghori Annibynnol

Yn ystod 2024/2025, cynhaliwyd dau Gyfarfod Panel a ystyriodd yn benodol y defnydd o ddillad gwrthrwygo a'r defnydd o rym yn y ddalfa.

Mae'r Panel yn datblygu'n dda, ac mae unigolion yn y ddalfa yn rhannu adborth cadarnhaol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: [Y Panel Craffu ar Ddalfeydd Annibynnol - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru (southwalescommissioner.org.uk)](southwalescommissioner.org.uk)

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, mae ymwelwyr wedi cael amrywiaeth o fewnbwn a hyfforddiant i wella eu gwybodaeth a'u hyder. Ym mis Awst 2024, cafodd ymwelwyr hyfforddiant gan yr Arweinydd Strategol ar gyfer Comisiynu, Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl ar hanes Naloxone a'r defnydd ohono yn Nalfeydd Heddlu De Cymru. Naloxone yw'r gwrthgyffur brys a roddir i drin gorddosau a achoswyd gan heroin ac opioid eraill fel methadon, morffin a fentanyl. Croesawodd ymwelwyr yr hyfforddiant, a nododd ei fod yn ddefnyddiol er mwyn dysgu mwy am Naloxone am fod dalfeydd ac adroddiadau ar ddigwyddiadau niweidiol yn aml yn cyfeirio ato.

Yn ystod 2024-2025, cymerodd ymwelwyr a Rheolwr y Cynllun ran mewn hyfforddiant i swyddogion cadw yn y ddalfa a rhingylliaid dalfeydd ym Mhencadlys Heddlu De Cymru er mwyn rhoi cyflwyniad ar y Cynllun. Diben yr hyfforddiant hwn yw annog cydberthnasau da â staff ac ymwelwyr newydd a chynyddu gwybodaeth am y rôl.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd ymwelwyr arddangosiad manwl a throsolwg o bodiau newydd dalfeydd. Mae'r podiau yn golygu bod modd i unigolion gael eu hatal mewn ffordd ddiogel wrth gael eu cefnogi gan staff hyfforddedig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymwelwyr wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a briffiadau gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) mewn perthynas ag meysydd gwahanol o'r ddalfa fel Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y ddalfa, beichiogrwydd a bwydo ar y fron yn y ddalfa, awtistiaeth yn y ddalfa, ymhlith eraill!

Ymweliad Cysgodi'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Ym mis Medi 2024, aeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Emma Wools, gydag ymwelwyr i ddalfa Abertawe. Roedd hyn yn gyfle gwych i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu arsylwi ar yr ymwelwyr yn cynnal gwiriadau o les unigolion yn y ddalfa a gwrando ar eu hadborth ar y rôl a gwasanaethau cyffredinol y ddalfa.

Cynhadledd Flynyddol y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol

Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol, y gwahoddwyd pob ymwelydd iddi. Cymerodd ymwelwyr ran mewn ymarferion adeiladu tîm a chawsant gyfle i brofi detholiad o fwyd sydd ar gael i unigolion yn y ddalfa.

At hynny, cyflwynodd gwasanaethau'r ddalfa bolisi newydd ar fregusrwydd a cheisiwyd adborth gan ymwelwyr. Yna, cynhaliwyd Seremoni Ymadawyr lle cyflwynodd Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wobr Cydnabyddiaeth i Gadeirydd Panel y Gorllewin am ei wasanaeth anhygoel i'r Cynllun.

Daeth y digwyddiad i ben gydag ymweliad gan Gi Llesiant Heddlu De Cymru. Dywedodd pawb a oedd yn bresennol fod y digwyddiad yn llwyddiannus ac yn ddiddorol iawn!

Recriwtio ar gyfer y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol

Yn ystod 2024, dechreuodd Rheolwr y Cynllun weithio gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig i feithrin cydberthnasau â chymunedau lleiafrifoedd ethnig a chynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth o fewn y Cynllun. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae wedi bod yn gadarnhaol iawn hyd yma.

## Y dyfodol

Ymgysylltu a Recriwtio

Mae tîm y Comisiynydd yn cydnabod bod angen recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol yn ystod 2025/2026 er mwyn ailgyflwyno ymweliadau wythnosol â phob dalfa. Y nod ar gyfer y cyfnod hwn yw recriwtio a hyfforddi o leiaf 10 ymwelydd newydd.

Trefniadau Ymweld

Bydd Rheolwr y Cynllun yn gweithio gydag ymwelwyr i annog mwy o ymweliadau ar benwythnosau ac yn hwyr y nos?

Adrodd Ar-lein

Ar hyn o bryd, mae ymwelwyr yn cwblhau ffurflenni adrodd papur a anfonir at dîm y Comisiynydd i'w teipio. Bydd Rheolwr y Cynllun yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i greu system lle y gall ymwelwyr gwblhau ffurflenni adrodd digidol yn ystod yr ymweliad yn y ddalfa. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu manylder ffurflenni adrodd a fydd yn gwella data'r cynllun.

Cofnodion Dalfeydd

Bydd Rheolwr y Cynllun yn rhoi hyfforddiant gloywi i ymwelwyr ar sut i graffu ar gofnodion dalfeydd. Y nod yw meithrin hyder ymwelwyr wrth ystyried ac adrodd ar gofnodion dalfeydd.

O ran sicrhau ansawdd, mae cynllun De Cymru yn gynllun **ARIAN**!

Ym mis Tachwedd 2023, dyfarnodd ICVA wobr Fframwaith Sicrhau Ansawdd Safon 'Arian' i Gynllun ICV De Cymru. Safon ansawdd annibynnol yw hon sy'n asesu effeithiolrwydd cynlluniau ac mae'n cwmpasu sawl maes, gan gynnwys y canlynol:

- Recriwtio a hyfforddi
- Rheoli gwirfoddolwyr
- Cyfathrebu
- Dwyn yr heddlu i gyfrif
- Tryloywder a sicrhau'r cyhoedd
- Lles unigolion yn y ddalfa
- Buddsoddi yn Rheolwr y Cynllun a'i gefnogi

Ar lefel arian, mae ein cynllun wedi datblygu cynlluniau hyfforddi manwl ar gyfer ein gwirfoddolwyr ac wedi rhoi prosesau llywodraethu ar waith sy'n corffori ymgysylltiad yr heddlu ac yn ymrwymo i ddatrys materion anodd. Ar lawr gwlad, mae cynllun arian yn golygu bod Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn treulio mwy o amser yn edrych ar gofnodion dalfa unigolion yn y ddalfa ac yn canolbwyntio ymhellach ar les y rhai sy'n cael eu cadw.

## Cynllun Lles Anifeiliaid

Caiff Cynllun Lles Anifeiliaid De Cymru ei hwyluso gan naw gwirfoddolwr ar hyn o bryd. Mae'r gwirfoddolwyr yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd ag Adran Cŵn a Cheffylau Heddlu De Cymru i arsylwi ac adrodd ar drefniadau lles, stablau ceffylau a chytiau cŵn yr heddlu.



Mae ymwelwyr yn nodi nifer y cŵn a'r ceffylau ar y safle ac unrhyw bryderon penodol am iechyd neu les, yn ogystal ag adrodd ar gyflwr ffisegol y safle, cyflwr y cerbydau cludo anifeiliaid ac unrhyw faterion atgyweirio. Cynhelir cyfarfodydd panel ddwywaith y flwyddyn ac mae staff, swyddogion, gwirfoddolwyr, milfeddyg lleol a chynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Cŵn yn bresennol.

Ar hyn o bryd, cynhelir ymweliadau wythnosol. Disgwylir i hyn gael ei adolygu yn 2025. Gall ymwelwyr dynnu sylw at unrhyw bryderon sydd ganddynt a chaiff pob mater ei drafod â chynrychiolwyr yr Heddlu. At hynny, trafodir yr anifeiliaid hynny sydd ar feddyginiaeth neu sy'n aros i gael eu hailgartrefu yn ystod y cyfarfodydd.  Ymwelydd profiadol a benodwyd gan aelodau'r panel sy'n cadeirio holl gyfarfodydd y panel ar hyn o bryd.

Caiff ymwelwyr eu harwain gan ‘bum rhyddid’ lles anifeiliaid a atodir i Ganllawiau'r Cynllun:

1) **Rhyddid rhag newyn a syched** – dŵr ffres a deiet iach ar gael yn hawdd.
2) **Rhyddid rhag poen, anaf a dioddef** – atal neu ddiagnosis a thriniaeth gyflym.
3) **Rhyddid rhag ofn a gofid** – amodau a thriniaeth sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.
4) **Rhyddid i fynegi ymddygiad arferol** – gofod digonol, cyfleusterau cywir a chwmnïaeth anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth.
5) **Rhyddid rhag anesmwythdra** – amgylchedd priodol gan gynnwys lloches a man cyfforddus i orffwys a chysgu.

Yn ystod 2024/25, cynhaliodd yr ymwelwyr 49 o ymweliadau â'r adran Cŵn a Cheffylau ar safle Waterton er mwyn gweld cŵn a cheffylau'r heddlu. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o 2022/2023 lle y cynhaliwyd 11 ymweliad. Mae'r cynnydd hwn yn deillio o recriwtio rhagor o ymwelwyr a chyflwyno ymweliadau wythnosol.

Nododd yr ymwelwyr y materion canlynol yn ystod 2024-25:

- Yr angen i atgyweirio cytiau'r cŵn a'r stablau.
- Tomen tail y tu allan i Waterton.
- Diogelwch ac oriau staff.
- Addasrwydd libartau awyr agored y cŵn.

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Staff a Swyddogion.
- Gwaredu gwastraff anifeiliaid.
- Dulliau rheoli tymheredd yng nghytiau'r cŵn.
- Ardaloedd cysgodol ar gyfer cytiau'r cŵn a chae'r ceffylau er mwyn i'r anifeiliaid allu cysgodi rhag yr elfennau.

Rhoddwyd gwybod i Reolwr yr Iard am bob un o'r materion a nodwyd. Mae tîm Ystadau Heddlu De Cymru wedi'i wahodd i Gyfarfodydd Panel i roi diweddariadau ynglŷn â'r safle. Ar ôl i'r ymwelwyr roi gwybod am y gwaith angenrheidiol sy'n ofynnol, mae gwaith adnewyddu helaeth wedi digwydd ac yn parhau i ddigwydd i ddatrys y problemau o ran cytiau'r cŵn a'r stablau. Yn benodol, nododd ymwelwyr nad oedd y Cae Ystwytho yn ymddangos mewn cyflwr da ac, o ganlyniad, mae cynnydd wedi'i wneud i brynu cyfarpar newydd a thacluso'r cae.

Yn ystod 2024/2025, adolygwyd y Cynllun er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl. Mae newidiadau wedi'u gwneud i Ganllawiau'r Cynllun sy'n cynnwys mwy o fanylion a gofynion a rhagor o wybodaeth mewn perthynas â hyd cyfnod gwirfoddolwyr, safonau lles anifeiliaid, presenoldeb mewn diwrnodau hyfforddiant cŵn blynyddol, trefniadau ymweld, gwiriadau cytiau cŵn, gwiriadau milfeddygol a goruchwylio gwirfoddolwyr.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Cynllun wedi datblygu fframwaith perfformiad er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am yr anifeiliaid yn cael ei chofnodi mor fanwl a chlir â phosibl.

Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo, a bydd y Cynllun yn ystyried ffyrdd o ddatblygu'r Cynllun a'i oruchwylio drwy dreialu dulliau ymweld gwahanol.

O ran hyfforddiant, mae gwirfoddolwyr wedi cael mynediad i 'Dogs Trust Campus', llwyfan cyrsiau ar-lein sy'n darparu hyfforddiant ar ymddygiadau cŵn ac addysg lles ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu sy'n gofalu am gŵn gwaith. Mae hyn yn rhoi cipolwg buddiol i wirfoddolwyr ar y broses o ofalu am gŵn gwaith.

Nodwyd y sylwadau cadarnhaol canlynol gan yr ymwelwyr a chawsant eu hadrodd yn ôl i staff a swyddogion:

- Croeso cynnes gan y staff wrth gyrraedd yr iard.
- Cerbydau mewn cyflwr da.



Mae'r ymwelwyr hefyd yn monitro unrhyw gŵn mewn cytiau sy'n aros am gartrefi newydd, mewn achosion lle nad ydynt yn addas fel cŵn yr heddlu o bosibl, neu pan fydd eu swyddogion yn ymddeol.

Mae ymwelwyr yn nodi unrhyw salwch, anafiadau ac yn cadw llygad am unrhyw arwyddion o straen. Nodir glanweithdra'r cytiau cŵn, y stablau a'r safle hefyd.

## Sut mae Heddlu De Cymru yn Ymateb i'n Canfyddiadau

“Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae presenoldeb Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn ein dalfeydd wedi parhau i gynnig manteision sylweddol i Heddlu De Cymru drwy hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd a diogelu hawliau unigolion yn y ddalfa. Drwy eu hymweliadau dirybudd rheolaidd, mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cynnig gwiriad diduedd o amodau'r ddalfa a lles yr unigolion. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ein harferion yn parhau i fod yn unol â gofynion statudol a hawliau dynol. Mae eu hadroddiadau a'u harsylwadau yn cyfrannu at welliannau parhaus i weithdrefnau dalfeydd, ac mae eu rôl yn ennyn mwy o hyder ymysg y cyhoedd o ran uniondeb plismona lleol. Mae'r gydberthynas gydweithredol rhwng Ymwelwyr Annibynnol a Dalfeydd, staff dalfeydd a'r panel craffu ar ddalfeydd wedi atgyfnerthu ymdrechion i gynnal gofal o safon uchel a thegwch gweithredol mewn dalfeydd.

Ymhlith enghreifftiau lle mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at newid cadarnhaol yn ein dalfeydd mae lleihau'r defnydd o ddillad gwrthrwygo, a'r cwestiwn yn yr asesiad risg yn ymwneud â niwroamrywiaeth ar NICHE. Mae hyn yn effeithio ar Heddlu De Cymru ond hefyd ar nifer o'r heddluoedd eraill rydym yn cydweithio â nhw mewn perthynas â NICHE.”

**Prif Arolygydd Anwar**
**Gwasanaethau'r Ddalfa, Heddlu De Cymru**

## Casgliad

Hoffai'r Comisiynydd a'i thîm ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod lles a hawliau unigolion yn nalfeydd Heddlu De Cymru ac anifeiliaid yr heddlu wedi cael eu cynnal. Rydym yn ddiolchgar i bob ymwelydd am barhau i gyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd i'r Cynllun ac am chwarae rhan hanfodol yng ngwaith a threfniadau goruchwylio Heddlu De Cymru.

**I gael rhagor o wybodaeth am eich Comisiynydd neu sut i wneud cais i fod yn Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd, ewch i:**

**/commissionersw**

**www.comisiynydddecymru.org.uk**

**Neu cysylltwch â ni drwy:**

commissioner@south-wales.police.uk

01656 869 366

Pencadlys Heddlu De Cymru,
Heol y Bont-faen,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 3SU

https://icva.org.uk/

https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/